Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Senedd yn gwasanaethu'r Senedd i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel senedd gref, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .... 4

**Datganiad o Fwriad** .... 5

**Rolau a Chyfrifoldebau** .... 6

**Trefniadau** .... 12

**Llywodraethu a Sicrwydd** .... 27

**Ymgynghori ag Undebau Llafur, Cynrychiolwyr Diogelwch a Chyflogeion** .... 28

**Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch** .... 29

**Rhagor o wybodaeth** .... 30

# Cyflwyniad

Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn ymrwymo i ddarparu amgylchedd iach a diogel i bawb sy'n gweithio ac yn ymweld ag ystâd y Senedd, (yng Nghaerdydd a Gogledd Cymru), yn ogystal ag unrhyw rai o staff y Comisiwn sy'n teithio neu'n gweithio o safleoedd eraill (gan gynnwys gweithio gartref). Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i roi cynllun ar waith sy'n adlewyrchu arfer gorau ac sy'n seiliedig ar egwyddorion rheoli risg a rheoli ansawdd. Mae'r Comisiwn hefyd wedi ymrwymo i'w gyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch eraill, fel wrth ymgysylltu â'r cyhoedd drwy holl weithgareddau'r Senedd.

Diben y polisi yw annog perchnogaeth, ymrwymiad a chydymffurfiaeth ar bob lefel o'r Senedd er mwyn sicrhau bod gofynion deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni a bod ein perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei wella'n barhaus. Mae'r polisi hwn yn gweithio i hyrwyddo nodau strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant y Comisiwn.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch drwy fframwaith o bolisïau a gweithdrefnau, a sut y byddwn yn darparu ac yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ar draws y Senedd fel rhan hanfodol o'n huchelgais i fod yn gyflogwr enghreifftiol.

Bydd y dull hwn yn:

- Mynd i'r afael â goblygiadau iechyd a diogelwch yr ystod lawn o weithgareddau gweithwyr;
- Adnabod y peryglon ac asesu lefel y risg;
- Dileu risg lle mae hynny'n bosibl;
- Lleihau effaith y risgiau hynny na ellir eu dileu.

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 mae'n ofynnol i'r Senedd gael Polisi Iechyd a Diogelwch.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y Comisiwn (gan gynnwys gweithwyr cartref) a defnyddwyr yr adeiladau ar ystâd y Senedd, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth, contractwyr hunangyflogedig, gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr ac interniaid. Mae hefyd yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymweld â'n safle neu'n defnyddio ein cerbydau.

Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth unrhyw gyflogai, na chontract arall i ddarparu gwasanaethau a gall y Comisiwn ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

# Datganiad o Fwriad

## Datganiad o Fwriad y Prif Weithredwr ynghylch Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Fel Prif Weithredwr, rwyf i, ynghyd ag aelodau'r Bwrdd Gweithredol, wedi ymrwymo i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n dod i ystâd y Senedd, a holl staff y Comisiwn, p'un a ydynt yn gweithio ar y safle, o safleoedd eraill, neu gartref. Mae hyn yn cynnwys holl gyflogeion y Comisiwn, Aelodau'r Senedd, Staff Cymorth yr Aelodau, contractwyr, ymwelwyr ag ystâd y Senedd ac aelodau'r cyhoedd yr ymgysylltir â hwy drwy holl weithgareddau'r Comisiwn.

Rydym wedi ymrwymo i'n rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol a gwelwn ddatblygiad diwylliant diogelwch cadarnhaol ar draws y Senedd fel rhan hanfodol o'n huchelgais i fod yn gyflogwr enghreifftiol.

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd, ac mae gan bob unigolyn yn y Senedd gyfrifoldeb i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal o ran iechyd, diogelwch a llesiant iddynt hwy eu hunain, eu cydweithwyr a phob ymwelydd. Gallwn wneud hyn drwy ddarparu hyfforddiant a chanllawiau i sicrhau'r lefelau angenrheidiol o hyder a chymhwysedd i gyflawni ein rolau'n gyfrifol ac yn ddiogel. Byddwn hefyd yn darparu fframwaith i sefydlu ac adolygu polisïau, amcanion a chanllawiau iechyd a diogelwch ar draws y Senedd, a thrwyddynt byddwn yn annog perchnogaeth, ymrwymiad a chydymffurfiaeth ar bob lefel o'r Senedd.

Byddaf yn sicrhau bod gofynion deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni a bod ein perfformiad o ran iechyd a diogelwch yn cael ei wella'n barhaus, gan gynnwys darparu Polisi Iechyd a Diogelwch ar gyfer y sefydliad a hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol.

Mae'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant a ganlyn yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu cynllunio, mesur ac adolygu ein hymrwymiadau ar y cyd â'n system rheoli diogelwch, a'n gwaith partneriaeth parhaus gyda'r undebau llafur a'r cynrychiolwyr iechyd a diogelwch i barhau i ddarparu amgylchedd iach a diogel i bawb.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Rolau a Chyfrifoldebau

Yr holl weithwyr:

- Mae gan bob unigolyn gyfrifoldeb dros ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac iechyd a diogelwch cydweithwyr ac ymwelwyr ag ystâd y Senedd.
- Rhaid i bob cyflogai gymryd gofal rhesymol o'i iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac eraill a rhaid iddo gydweithredu â'i reolwr a'i gydweithwyr mewn ymdrech i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch galwedigaethol.
- Cymryd gofal rhesymol am ei ddiogelwch ei hun, ac am ddiogelwch y bobl eraill y gallai ei weithredoedd neu hepgoriadau effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd.
- Cydweithredu â'r Comisiwn i fodloni gofynion cyfraith iechyd a diogelwch a'r trefniadau a nodir yn y polisi iechyd a diogelwch.
- Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir er budd iechyd a diogelwch, na'i gamddefnyddio.
- Rhoi gwybod am ddiffygion mewn offer gwaith a/neu amodau anniogel yn y gweithle i'w rheolwr a/neu ddesg gymorth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau er mwyn i gamau adfer gael eu cymryd.
- Cadw at yr holl gyfarwyddiadau rhesymol a roddir, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, i sicrhau diogelwch personol a diogelwch pobl eraill.
- Rhoi gwybod am unrhyw sefyllfa a allai greu risg difrifol neu uniongyrchol i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain neu unrhyw berson tra'u bod yn y gwaith.
- Gwisgo'n gall ac yn ddiogel ar gyfer eu hamodau gwaith penodol.
- Ymddwyn yn drefnus yn y gweithle bob amser ac ymatal rhag bod yn wirion.
- Defnyddio'r holl offer diogelwch a/neu ddillad diogelwch a ddarperir gan y Comisiwn yn unol â'r cyfarwyddiadau, a rhoi gwybod i'w rheolwr am unrhyw golled neu niwed yn ddi-oed.

- Ymgyfarwyddo â'r holl offer, prosesau, deunyddiau a sylweddau a ddefnyddir a thynnu sylw eu rheolwr llinell at unrhyw brosesau, offer, deunyddiau neu sylweddau nad ydynt wedi'u hyfforddi i'w defnyddio.
- Dilyn pob system waith ddiogel ac arferion gweithio diogel.
- Cadw eu gweithle yn daclus, gan gadw deunyddiau, eu storio'n gywir a chydymffurfio ag arferion cymhennu da.
- Rhoi gwybod i'w rheolwr am bob damwain p'un a oes anaf ai peidio.
- Mynychu cyrsiau hyfforddi iechyd a diogelwch perthnasol.
- Bod yn gyfarwydd â’r trefniadau ar gyfer cymorth cyntaf, gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng a lleoliad pwyntiau larwm tân ac offer argyfwng sy’n berthnasol i’w maes (meysydd) gwaith.
- Gall peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gael ei drin fel camymddygiad, ac ymdrinnir â hyn o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu.

Maes Gwasanaeth Adnoddau Dynol (gan gynnwys Gweithrediadau Adnoddau Dynol a’r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant):

- Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i archwilio a monitro i ba raddau y mae’r system rheoli iechyd a diogelwch yn cael ei gweithredu, ac effeithiolrwydd y system.
- Sicrhau bod rhaglen rheoli iechyd a diogelwch effeithiol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn.
- Sicrhau bod adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'i drafod ganddo.
- Sicrhau bod niferoedd digonol o bersonau cymwys yn cael eu penodi yn ôl yr angen i roi cyngor, arweiniad a chymorth ar faterion iechyd a diogelwch i reolwyr a staff.
- Y Pennaeth Adnoddau Dynol sy’n gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu bob tymor a sicrhau cyfathrebu effeithiol ag aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

- Y Maes Gwasanaeth Adnoddau Dynol sy’n prosesu dogfennau personél gan gynnwys apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol a chadw gwyliadwriaeth ar iechyd. Caiff staff y Comisiwn weld manylion am hyn yn yr Hysbysiad Preifatrwydd Staff.

- Cysylltu ag Aelodau a staff cymorth fel y bo angen er mwyn cael gafael ar wasanaethau Adnoddau Dynol, er enghraifft apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol.

- Prosesu adroddiadau am ddigwyddiadau a chynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau fel eu bod yn llai tebygol o ddigwydd eto.

Maes Gwasanaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau:

- Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig ar gyfer Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ym Mholisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant corfforaethol y Comisiwn.

- Sicrhau bod systemau wedi’u datblygu a’u rhoi ar waith i ddethol a rheoli contractwyr cymwys ar gyfer yr holl waith adeiladu neu weithgareddau cynnal a chadw.

- Mae trefniadau’n bodoli ar gyfer cynnal a chadw, ac archwilio adeiladau ystâd y Senedd yn ddiogel.

- Sicrhau bod diogelwch tân ar draws ystâd y Senedd yn cael ei fonitro gan gynnwys asesiadau risg tân ac ymarferion gwacáu mewn argyfwng.

Cyfarwyddwyr:

- Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant y Comisiwn (y polisi hwn).

- Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig ac yn gweithredu’r gofynion hyn yn eu maes cyfrifoldeb.

- Sicrhau bod yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, rheolwyr a chyflogeion wedi’u hyfforddi ac yn deall eu cyfrifoldebau i gyflawni eu dyletswyddau iechyd a diogelwch yn gymwys.

- Dyrannu adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni amcanion a thargedau iechyd a diogelwch.

- Ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaeth, rheolwyr a chyflogeion i sicrhau bod dulliau’n cael eu mabwysiadu ar gyfer hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith, darparu

trefniadau iddynt gymryd rhan yn natblygiad mesurau o'r fath a chydweithio â rheolwyr a chyflogeion i ddatrys problemau iechyd a diogelwch yn gyfeillgar.

- Sicrhau bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn eu meysydd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd mewn materion iechyd a diogelwch a gosod esiampl bersonol uchel o ran safonau iechyd a diogelwch ar draws y Comisiwn.
- Enwebu aelod o'u staff i gydlynu gweithgareddau iechyd a diogelwch o fewn eu Cyfarwyddiaeth.

Penaethiaid Gwasanaeth:

- Ymgyfarwyddo â Pholisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant corfforaethol y Comisiwn.
- Sicrhau eu bod yn deall y gofynion penodedig ac yn gweithredu'r gofynion hyn yn eu maes cyfrifoldeb.
- Sicrhau bod yr holl reolwyr wedi'u hyfforddi yn eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, ac yn eu deall.
- Sicrhau bod cyflogeion wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gyflawni'r tasgau gofynnol, a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r holl beryglon hysbys sy'n bodoli, yn ogystal â'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r peryglon hynny.
- Sicrhau bod amgylchedd diogel ac iach yn cael ei gynnal, a bod yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â rheoliadau statudol priodol a chodau ymarfer, sy'n cael eu hystyried fel y safon ofynnol absoliwt.
- Sicrhau bod yr holl offer gwaith angenrheidiol mewn cyflwr diogel a bod mynediad diogel i weithleoedd ac allan ohonynt yn cael ei gynnal bob amser.
- Sicrhau bod cyflogeion ac eraill sydd o dan eu rheolaeth yn cael hyfforddiant cynefino a hyfforddiant gwaith i'w galluogi i weithio'n ddiogel.
- Sicrhau yr ymchwilir i bob damwain sy'n cynnwys anaf personol, neu afiechyd, neu ddamweiniau a fu bron â digwydd; damweiniau mwy difrifol i gael eu hymchwilio ar y cyd â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

- Sicrhau bod camau adfer yn cael eu cymryd i atal damweiniau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd rhag digwydd eto.
- Sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau ac ymchwilio iddynt.

Prif Weithredwyr:

- Paratoi a chyhoeddi datganiad o fwriad ar ymagwedd y Comisiwn tuag at iechyd a diogelwch yn y gweithle.
- Cyflawni’r bwriadau iechyd a diogelwch fel y nodwyd yn y datganiad o fwriad yn y Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant.
- Adolygu'r Datganiad Polisi a'i ail-gadarnhau bob 3 blynedd.
- Sicrhau bod gan y Comisiwn bolisïau iechyd a diogelwch priodol ac effeithiol ar waith, a gefnogir ar bob lefel o fewn y sefydliad.
- Rhoi'r dasg i reolwyr o roi'r polisi iechyd a diogelwch ar waith o fewn eu meysydd rheolaeth ac i’r graddau sy'n briodol i lefel y risg.
- Pennu amcanion iechyd a diogelwch y Comisiwn.
- Sicrhau bod materion iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu hystyried a’u trafod ar lefel bwrdd.
- Sicrhau bod cyllid priodol ac adnoddau eraill yn cael eu dyrannu i fodloni ymrwymiadau'r Comisiwn i iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod uwch reolwyr wedi’u hyfforddi yn eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, a’u bod yn gwbl ymwybodol ohonynt.
- Monitro iechyd a diogelwch ac adolygu perfformiad.
- Denu cyflogeion i gymryd rhan weithredol o ran gwella iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'i drafod ganddo.
- Cyfeirio unrhyw achosion o dorri rheoliadau statudol, neu arfer anniogel at eu Cyfarwyddwyr.

Contractwyr:

- Amlinellir y trefniadau ar gyfer rheoli contractwyr ymhellach yn yr adran Trefniadau o dan Contractwyr.
- Mae pob contractwr sy’n gweithio yn y Comisiwn neu o dan gyfarwyddyd y Comisiwn o dan rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod ei waith yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy’n lleihau’r risgiau iddo’i hun ac eraill y gallai ei waith effeithio arnynt. Disgwylir iddo hefyd gydymffurfio â gofynion statudol perthnasol a gofynion y Comisiwn. Gall peidio â gwneud hynny gael ei ystyried yn sail i derfynu contract.
- Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sy'n gyfrifol am sicrhau bod contractwyr a gyflogir gan y Comisiwn yn gymwys ac yn cael eu goruchwylio i'r graddau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni i safon dderbyniol o ddiogelwch. Bydd y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am unrhyw risgiau posibl i'w hiechyd a'u diogelwch, a'r camau y dylent eu cymryd i osgoi risgiau o'r fath. Mae’n hynod bwysig felly bod cydweithredu, cyd-drefnu a chysylltu effeithiol rhwng y Comisiwn a’i gontractwyr, fel y gellir gwneud y naill yn ymwybodol o anghenion y llall a bod y gwaith yn cael ei gyflawni’n ddiogel, a’i reoli’n briodol. Os gwelir bod contractwyr yn gweithio mewn modd sy'n peryglu eu hunain neu eraill, dylid cysylltu â’r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn y lle cyntaf.

Defnyddwyr yr adeiladau gan gynnwys Aelodau a’u staff cymorth, contractwyr hunangyflogedig, gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr ac interniaid:

- Cadw at y trefniadau iechyd a diogelwch sydd ar waith ar draws ystâd y Senedd.
- Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir er lles iechyd a diogelwch, a pheidio â chamddefnyddio unrhyw eitemau o’r fath.
- Dilyn cyfarwyddiadau rhesymol gan eu cyswllt yn y Senedd, gan gynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â chymorth cyntaf a gadael yr adeilad mewn argyfwng, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Rhoi gwybod am ddigwyddiadau, damweiniau a fu bron â digwydd neu namau i Gomisiwn y Senedd drwy eu cyswllt yn y Senedd neu drwy roi gwybod i’r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

# Trefniadau

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar bolisïau[1], amlinellir y trefniadau ymarferol ar gyfer iechyd a diogelwch isod.

## Asesiadau risg

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999[2] ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau i gyflogeion ac unrhyw rai eraill y gallai eu gwaith effeithio arnynt, a chofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol.

Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cynorthwyo Adrannau i gwblhau asesiadau risg gan gynnwys rhoi cyngor ar fesurau rheoli rhesymol.

Rhaid adolygu asesiadau risg o bryd i'w gilydd ac yn dilyn:

- Newid sylweddol ym mhersonél y Comisiwn
- Newid sylweddol yn natur gweithgareddau'r Comisiwn
- Unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu ddamweiniau a fu bron â digwydd
- Newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau neu arfer gorau

Mae asesiadau risg y Comisiwn yn cymhwyso egwyddorion cyffredinol atal[3] gan gynnwys osgoi risgiau lle mae hynny'n bosibl a gwerthuso'r risgiau na ellir eu hosgoi.

[1] Paratoi polisi iechyd a diogelwch: Sut i ysgrifennu eich polisi – Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE): https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/policy/how-to-write-your-policy.htm#article

[2] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliad 3, Asesiad risg: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1999/3242/regulation/3/made

[3] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliad 4, Egwyddorion atal sydd i'w cymhwyso: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/3/made

Bydd asesiadau risg yn ystyried nodweddion gwarchodedig gan gynnwys oedran, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a rhyw o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Damweiniau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd

Rhaid i bob digwyddiad, ni waeth pa mor fychan, gael ei gofnodi. Rhaid i'r unigolyn a oedd ynghlwm â'r digwyddiad, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, gwblhau Ffurflen Cofnodi Digwyddiad[4] heb oedi. Gall unigolion gynnwys staff y Comisiwn, Aelodau a'u staff cymorth, contractwyr hunangyflogedig, gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr, interniaid neu aelodau o'r cyhoedd sydd ar ymweliad.

Mae digwyddiadau'n cynnwys:

- damweiniau: digwyddiad sy'n arwain at anaf neu afiechyd
- Damweiniau a fu bron â digwydd: digwyddiad nad yw'n achosi niwed, ond a allai achosi anaf neu afiechyd
- amgylchiadau annymunol: set o amodau neu amgylchiadau a allai achosi anaf neu afiechyd, e.e. staff heb eu hyfforddi sy'n cyflawni gweithgareddau codi a chario.

Bydd y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn ymchwilio i'r digwyddiad ac yn cysylltu â'r holl bartïon dan sylw gan gynnwys cyfweld unigolion yr effeithiwyd arnynt, tystion, swyddogion cymorth cyntaf a rheolwyr llinell.

Os bydd angen, bydd y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) drwy weithdrefnau cofnodi RIDDOR am unrhyw anaf,

[4] Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiad - Comisiwn y Senedd: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=KVHcOAw0FEWKBE6O8ncVZPfHgg1x8RlPkAMiiTtDnJlUNEZQOE45QkdKNlRUNklCQ0ZYWjRJRTNGTSQlQCN0PWcu&wdLOR=cE5041F47-8DCB-4C88-93D6-6FAC77E2ABB4

digwyddiad peryglus neu glefyd galwedigaethol y mae angen hysbysu amdano o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 ("RIDDOR")[5].

Prif amcan adrodd am ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd yw hwyluso ymchwiliad trylwyr a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd eto.

## Cymorth Cyntaf

Y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant sy'n gyfrifol am reoli cymorth cyntaf ar draws ystâd y Senedd. Mae'r Polisi Cymorth Cyntaf yn rhoi manylion am y trefniadau ar gyfer yr ystafelloedd a'r bocsys cymorth cyntaf, y swyddogion cymorth cyntaf, a'r hyfforddiant.

## Diogelwch tân

Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sy'n gyfrifol, yn strategol ac yn weithredol, am weithdrefnau diogelwch tân ar draws ystâd y Senedd. Mae rhagofalon tân addas a digonol ar waith gan gynnwys asesiadau risg tân blynyddol, profion larymau tân wythnosol a gwiriadau rheolaidd o ddiffoddwyr tân, larymau tân, ffyrdd o ddianc a goleuadau argyfwng. Mae trefniadau angenrheidiol hefyd wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ar gyfer gwacáu yn effeithiol mewn achos o dân, bom neu argyfwng arall, gan gynnwys penodi swyddogion tân hyfforddedig.

Dylai holl ddefnyddwyr yr adeilad ymgyfarwyddo â'r cyfarwyddiadau diogelwch tân, sy'n cael eu harddangos ar hysbysfyrddau a ger allanfeydd tân yn y gweithle.

Os ydych chi'n clywed larwm tân, gadewch yr adeilad ar unwaith drwy'r allanfa dân agosaf, ac ewch i'r man ymgynnull tân a ddangosir ar yr hysbysiadau diogelwch tân. Peidiwch ag aros i gasglu eiddo na defnyddio unrhyw lifftiau. Bydd swyddogion tân yn cynorthwyo i wacáu'r adeilad

---

[5] Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1471/contents/made

a rhaid ichi ddilyn eu cyfarwyddiadau. Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes y dywedir wrthych am wneud hynny.

Os byddwch yn dod o hyd i dân, peidiwch â cheisio ei ddiffodd oni bai ei fod yn ddiogel a'ch bod wedi cael eich hyfforddi neu'n teimlo'n gymwys i wneud hynny. Dylech ganu'r larwm tân agosaf ac, os oes gennych ddigon o amser, ffoniwch y dderbynfa a rhoi gwybod am leoliad y tân.

Bydd unigolion a enwebwyd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio diffoddwyr tân yn gywir.

Dylai unigolion roi gwybod i'w rheolwr llinell, y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau neu eu cyswllt yn y Senedd os oes unrhyw reswm (er enghraifft, problemau symudedd) a allai eu rhwystro rhag gadael yr adeilad pe bai tân. Bydd cynllun personol gadael mewn argyfwng ('PEEP') yn cael ei lunio a'i ddwyn i sylw'r swyddogion tân perthnasol a'r cydweithwyr sy'n gweithio yn eich ymyl.

## Cadw'n ddiogel

Y tîm Diogelwch sy'n gyfrifol am ddiogelwch ar draws ystâd y Senedd gan gynnwys gweithredu gweithdrefnau Cadw'n Ddiogel.

Mae holl staff y Comisiwn, Aelodau'r Senedd a Staff Cymorth yr Aelodau yn cael hyfforddiant Cadw'n Ddiogel gan y tîm Diogelwch. Mae Cadw'n Ddiogel yn dilyn egwyddorion Run, Hide, Tell[6] ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd symud oddi wrth berygl a chynorthwyo'r rhai o'u cwmpas a all fod angen cymorth i symud oddi wrth berygl.

Mae'r tîm Diogelwch yn cyflwyno gwybodaeth ddiogelwch sy'n benodol i'r Comisiwn i'r holl ddechreuwyr newydd yn ystod y cyfnod cynefino corfforaethol. Mae'n cynnwys protocolau diogelwch ystâd y Senedd, fel pwysigrwydd pasys diogelwch ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon i'r tîm Diogelwch, fel ymddygiad amheus neu becynnau heb oruchwyliaeth.

[6] Taflen wybodaeth maint A5 'Run Hide Tell':
https://www.npcc.police.uk/StaySafeAssets/FINAL%20MPS168715%20Run%20Tell%20Hide%20A5%20Lflt%20Blk%20Eng%20v3.pdf

## Trydan yn y gwaith

Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sy'n gyfrifol am reoli trydan yn y gwaith ar draws ystâd y Senedd gan gynnwys archwilio a phrofi gosodiadau sefydlog yn rheolaidd a hwyluso Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) ar y safle i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989[7].

Dylai unigolion sy'n cael offer trydanol fel rhan o'u rolau gynnal archwiliadau gweledol rheolaidd o unrhyw offer trydanol y maent yn ei ddefnyddio, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny. Rhaid iddynt roi gwybod i'r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ar unwaith am unrhyw nam, neu amheuaeth o nam, er mwyn iddynt ymateb yn unol â hynny. Ni ddylai unigolion, o dan unrhyw amgylchiadau, geisio atgyweirio unrhyw offer trydanol eu hunain.

## Ymbelydredd Ïoneiddio

Mae'r tîm Diogelwch â'r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017[8]. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau statudol, megis cofrestru, Goruchwylwyr Diogelu rhag Ymbelydredd (RPS), sicrhau cyn-lleied o gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio ag sy'n rhesymol ymarferol, cynnal a chadw, cynlluniau wrth gefn, hyfforddiant a monitro.

## Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002[9] gan gynnwys atal a rheoli cysylltiad â sylweddau peryglus i iechyd.

[7] Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1989/635/contents/made

[8] Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1075/contents/made

[9] Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2002/2677/contents/made

### Sylweddau peryglus i iechyd

Mae rheolaethau a ddogfennwyd ar waith i reoli sylweddau peryglus a ddefnyddir gan staff neu gontractwyr yn ystod gweithgareddau'r Senedd, gan gynnwys proses COSHH ar gyfer dogfennu sut y mae Sylweddau Peryglus i Iechyd a ddefnyddir ar Ystâd y Senedd yn cael eu defnyddio a'u storio'n ddiogel. Amlinellir y rheolaethau hyn mewn asesiadau risg priodol ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

### Deunyddiau glanhau

Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sy'n rheoli contractau glanhau'r Comisiwn ac yn sicrhau bod gan gontractwyr glanhau fynediad at storfeydd y gellir eu cloi ar y safle. Mae contractwyr glanhau yn cynnal eu hasesiadau risg eu hunain ar gyfer y deunyddiau glanhau a'r offer a ddefnyddir ganddynt.

## Rheoli gwastraff

Rheolir rhaglen rheoli gwastraff y Comisiwn gan y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r ffrydiau rheoli gwastraff hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wastraff cyffredinol, deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gwastraff clinigol.

## Cymhennu

Mae cymhennu da ar draws ystâd y Senedd yn hollbwysig. Ni ddylai deunyddiau gwastraff gronni yn ystod unrhyw weithgaredd gwaith. Dylid cadw llwybrau mynediad yn glir o ddeunyddiau gwastraff bob amser.

## Legionella

Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sy'n gyfrifol am reoli risgiau legionella ar draws ystâd y Senedd a hwyluso ystod o fesurau rheoli i leihau'r risg o legionella drwy ddefnyddio contractwyr ar y safle.

## Contractwyr

Mae gan bob contractwr sy'n gweithio ar draws ystâd y Senedd neu o dan gyfarwyddyd y Comisiwn, rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod ei waith yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n lleihau'r risgiau iddo'i hun ac eraill y gallai ei waith effeithio arnynt. Disgwylir iddo hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth statudol berthnasol a gofynion y Comisiwn.

Mae'r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol am sicrhau bod contractwyr cynnal a chadw adeiladau a gyflogir gan y Comisiwn wedi cymhwyso ac yn gymwys i wneud y gwaith sydd ei

angen. Bydd y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am unrhyw risgiau posibl i'w hiechyd a'u diogelwch, gan gynnwys y camau y dylent eu cymryd i osgoi neu leihau risgiau o'r fath.

Mae contractwyr sy'n gwneud gwaith ar gyfer gweithgareddau eraill y Senedd yn cael eu rheoli gan Faes Gwasanaeth priodol y Comisiwn gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gontractwyr TGCh, clyweledol a darlledu.

Os gwelir bod unrhyw gontractwyr yn gweithio mewn modd sy'n peryglu eu hunain neu eraill, dylai defnyddwyr yr adeilad hysbysu Maes Gwasanaeth priodol y Comisiwn yn y lle cyntaf a llenwi Ffurflen Cofnodi Digwyddiad[4] heb oedi.

## Ymwelwyr

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau iechyd a diogelwch yr holl ymwelwyr ar ystâd y Senedd neu sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Comisiwn.

Y tîm Lleoliadau sy'n gyfrifol am ddiogelwch ymwelwyr tra'u bod ar ystâd y Senedd. Mae gwybodaeth iechyd a diogelwch ar gael i ymwelwyr pan fyddant yn dod i mewn gan gynnwys manylion am weithdrefnau gwacáu mewn argyfwng a chymorth cyntaf.

Ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i ystâd y Senedd y tu hwnt i'r rhwystrau diogelwch, mae deiliaid pasys yn gyfrifol am fod gyda nhw bob amser a rhaid iddynt eu hebrwng o gwmpas ac allan o adeiladau'r Senedd .

Ar gyfer unrhyw rai o weithgareddau'r Comisiwn a gynhelir oddi ar y safle, y Maes Gwasanaeth sy'n trefnu'r rhain sy'n gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth, contractwyr hunangyflogedig, gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr, interniaid ac aelodau o'r cyhoedd. Mae hyn hefyd yn gymwys i unrhyw un sy'n ymweld â'n safle neu'n defnyddio ein cerbydau. Bydd y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cefnogi Meysydd Gwasanaeth i asesu risg y gweithgareddau hyn er mwyn sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith.

## Cadw gwyliadwriaeth ar iechyd

Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol, yn strategol ac yn weithredol, am y contract cadw gwyliadwriaeth ar iechyd ar gyfer Iechyd Galwedigaethol. Mae ar gael i staff y Comisiwn, Aelodau'r Senedd a'u staff cymorth.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliad 6 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999[10] gan gynnwys sicrhau bod cyflogeion yn cael cadw gwyliadwriaeth briodol ar eu hiechyd yn ôl yr angen.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gadw gwyliadwriaeth ar iechyd ac Iechyd Galwedigaethol ar dudalen Rheoli Presenoldeb[11] y Canolbwynt Polisi.

Mae pob cyflogai yn cael holiadur cyn cyflogi sy'n cael ei adolygu gan y tîm Iechyd Galwedigaethol. Mae cadw gwyliadwriaeth bellach ar iechyd yn dibynnu ar y rôl e.e. awdiometreg, sbirometreg.

## Sŵn

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005[12] gan gynnwys asesu'r risg i iechyd staff y Comisiwn ac unrhyw effaith y gallai sŵn ei chael ar ddefnyddwyr eraill yr adeilad. Amlinellir rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer rheoli sŵn yn y gwaith yn yr Asesiad Risg Corfforaethol.

## Dirgryniad

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliadau Rheoli Dirgryniad yn y Gwaith 2005[13] gan gynnwys asesu'r risg i iechyd staff y Comisiwn ac unrhyw effaith y gallai dirgryniad ei chael ar ddefnyddwyr eraill yr adeilad. Amlinellir rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer rheoli dirgryniad yn y gwaith yn yr Asesiad Risg Corfforaethol.

---

[10] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliad 6, Goruchwyliaeth iechyd: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1999/3242/regulation/6/made

[11] Rheoli Presenoldeb: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Rheoli-presenoldeb.aspx?web=1

[12] Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/735/contents/made

[13] Rheoliadau Rheoli Dirgryndod yn y Gwaith 2005: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/735/contents/made

## Cyfarpar sgrin arddangos

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992[14] gan gynnwys darparu profion llygaid fel yr amlinellir yn y Polisi Profion Llygaid[15]. Mae hyn yn cynnwys unrhyw amgylchedd gwaith lle mae'n ofynnol i staff ddefnyddio Cyfarpar Sgrin Arddangos, gan gynnwys ar ystâd y Senedd, gartref, neu mewn unrhyw amgylchedd gwaith arall.

Rhoddir hyfforddiant a gwybodaeth i bob cyflogai newydd ar sut i osod Cyfarpar Sgrin Arddangos yn gywir yn ei weithfan, gan gynnwys sut i gynnal ystum da, pwysigrwydd cymryd seibiannau a sut i addasu ei gadair, yn ei sesiwn gynefino yn y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn wedi caffael system ar-lein ar gyfer hunanasesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos. Mae'r system hon yn galluogi staff y Comisiwn i gynnal hunanasesiadau, darllen canllawiau ar sut i osod Cyfarpar Sgrin Arddangos yn gywir ac uwchgyfeirio materion sy'n gofyn am weithredu pellach, fel prynu offer arbenigol. Os bydd angen asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos personol o ganlyniad i gwblhau hunanasesiad ar-lein, bydd y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn hwyluso hyn. Gellir anfon unrhyw ymholiadau ynghylch Cyfarpar Sgrin Arddangos at wellbeingdse@senedd.cymru

## Iechyd Meddwl a Llesiant

Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb strategol am fentrau iechyd meddwl a llesiant ar draws y Comisiwn. Mae'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn gweithio gyda'r tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol, yn ogystal â'r tîm Datblygu Sefydliadol a Dysgu i sicrhau bod darpariaethau

[14] Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos) 1992: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1992/2792/contents/made

[15] Canolbwynt Polisi – Profion llygaid: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Profion-llygaid.aspx?web=1

priodol yn cael eu gwneud i hwyluso sgyrsiau ystyrlon am iechyd meddwl a llesiant cyflogeion gan gynnwys y Polisi Iechyd Meddwl[16], Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl[17] a thempledi cysylltiedig.

Mae apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol ar gael i staff y Comisiwn, Aelodau a'u staff cymorth ac mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr[18] yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cymorth emosiynol ac ymarferol 24/7 ar gyfer materion yn y cartref neu yn y gwaith, sydd ar gael ar-lein a thrwy rif Rhadffôn 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

MINDFUL[19] rhwydwaith y Senedd ar gyfer iechyd meddwl, llesiant a chydraddoldeb yn y gweithle, ac fe'i sefydlwyd yn 2017. Diben y rhwydwaith yw cefnogi staff y Comisiwn, Aelodau a'u staff cymorth ar draws y sefydliad sydd wedi cael eu heffeithio gan unrhyw gyflwr iechyd meddwl neu sy'n cefnogi rhywun sy'n dioddef o anhwylder iechyd meddwl. Mae'r rhwydwaith yn agored i unigolion y mae iechyd meddwl wedi effeithio arnynt ac y mae angen cymorth arnynt, ac rydym yn annog pobl sydd â diddordeb mewn codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn y gweithle i ymuno.

## Plant a phobl ifanc

Mae'r Comisiwn yn cydnabod ei ddyletswydd estynedig i sicrhau iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc pan fyddant ar ystâd y Senedd, neu wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Comisiwn. Rhaid i'r ddyletswydd estynedig hon gael ei hystyried gan staff sy'n ymwneud i unrhyw raddau â goruchwylio neu reoli plant a phobl ifanc ac wrth gynnal asesiadau risg.

---

[16] Canolbwynt Polisi - Iechyd meddwl: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Iechyd-meddwl.aspx?web=1

[17] Pecyn cymorth Iechyd Meddwl: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-hr-cy/SitePages/wellbeing-mental-health-toolkit.aspx

[18] Rhaglen Cymorth i Weithwyr: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-sta/SitePages/Employee-Assistance-Programme.aspx

[19] Y Rhwydwaith Staff MINDFUL: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-sta-cy/SitePages/Equality-mindful-home.aspx

Mae'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Diogelu yn cefnogi Gwasanaethau i asesu risg gweithgareddau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc.

Mae gan y Comisiwn amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau i amddiffyn a chefnogi plant a phobl ifanc, sydd ar gael ar dudalen diogelu[20] y Canolbwynt Polisi, yn ogystal â chyngor diogelu cyffredinol ar y tudalennau diogelu[21] mewnol.

Mae Aelodau yn gyfrifol am lunio a gweithredu eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu eu hunain ar gyfer eu swyddfeydd etholaethol a darparwyd canllawiau diogelu[22] i'w helpu i wneud hynny.

## Gweithio ar eich pen eich hun

Y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant sy'n gyfrifol am reoli gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain ar draws y Comisiwn, gan gynnwys perchnogaeth o'r Polisi gweithio ar eich pen eich hun[23] sydd ar gael o'r Canolbwynt Polisi. Mae'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cynnal asesiadau risg gweithio ar eich pen eich hun, sy'n cynnwys cefnogi Meysydd Gwasanaeth i nodi gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain a gweithredu mesurau rheoli i ddileu neu leihau'r risg i'r gweithwyr hynny.

Y tîm Diogelwch sy'n gyfrifol am gefnogi Aelodau'r Senedd a'u Staff Cymorth gyda threfniadau gweithio ar eu pennau'u hunain gan gynnwys hyfforddiant a gwybodaeth am ddyfeisiau diogelwch ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun.

[20] Canolbwynt Polisi – Diogelu: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Diogelu.aspx?web=1

[21] Diogelu (Staff y Comisiwn): https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-hr-cy/SitePages/Safeguarding-Home-Page.aspx

[22] Diogelu (Aelodau): https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-wwc/SitePages/Safeguarding.aspx

[23] Canolbwynt Polisi – Gweithio ar eich pen eich hun: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Gweithio-ar-eich-pen-eich-hun.aspx?web=1

## Gyrru fel rhan o'ch gwaith

Mae'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cynnig hyfforddiant a gwybodaeth am yrru fel rhan o'ch gwaith i Adrannau, gan gynnwys pwysigrwydd bod â'r drwydded yrru berthnasol, yswiriant sy'n cynnwys gyrru at ddefnydd busnes a chynnal a chadw cerbydau mewn modd diogel.

Mae Canllawiau ar gyfer parcio[24] ar gael, ynghyd â'r Polisi Parcio Ceir Hygyrch[25].

Rhaid i bob gyrrwr gadw at yr holl derfynau cyflymder a'r systemau un ffordd sydd mewn grym ar y safle er ei ddiogelwch ei hun a diogelwch defnyddwyr eraill y mannau a rennir.

## Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Bydd y Comisiwn yn nodi ac yn darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a rhaid gwisgo'r PPE perthnasol bob amser wrth gyflawni gweithgareddau gwaith. Bydd y Comisiwn yn ymgymryd â holl weithgareddau gwaith i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992[26]. Bydd hyfforddiant a gwybodaeth am y defnydd cywir o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael i staff.

Ar gyfer unigolion sydd angen Cyfarpar Diogelu Personol amgen o ganlyniad i nodwedd warchodedig, dylid cynnal trafodaethau rhyngddynt hwy a'u rheolwr llinell i weithredu yn unol â hynny. Gall y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant gynghori ar opsiynau pellach o ran Cyfarpar Diogelu Personol dan yr amgylchiadau hyn.

Gall peidio â gwisgo'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol neu ei niweidio'n fwriadol gael ei drin fel camymddygiad ac ymdrinnir ag ef o dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu.

---

[24] Parcio: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-te-cy/SitePages/Parking-index.aspx

[25] Canolbwynt Polisi – Mannau parcio hygyrch y gellir eu neilltuo: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev/SitePages/Mannau-parcio-hygyrch-wedi-eu-neilltuo.aspx?web=1

[26] Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/735/contents/made

## Rhieni Newydd a Beichiog

Bydd y Comisiwn yn cynnal asesiadau risg penodol os bydd cyflogai yn hysbysu ei reolwr llinell am feichiogrwydd yn unol â Rheoliad 16 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999[27]. Bydd asesiadau o'r fath yn ystyried dyletswyddau'r unigolyn, yr offer a'r deunyddiau sy'n bresennol, amodau gwaith ac oriau gwaith. Os bernir bod risg yn bodoli i'r fam newydd, y fam feichiog neu'r baban yn y groth, bydd rheolaethau addas yn cael eu cyflwyno a'u monitro drwy gydol y beichiogrwydd a'r cyfnod cynnar o fagu'r plentyn. Mae'r Asesiad Risg Rhieni Newydd a Beichiog[28] ar gael i bob rhiant newydd a beichiog ei ddefnyddio gyda'i reolwr llinell. Mae'n cynnwys ystyried addasiadau i ofynion iwnifform, neu offer arall. Y tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am reoli'r broses hon.

## Gweithwyr ifanc

Fel yr amlinellir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, person ifanc yw unrhyw un o dan 18 oed a phlentyn yw unrhyw un nad yw eto wedi cyrraedd yr isafswm oedran gadael ysgol swyddogol o 16.

O dan Reoliad 19 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999[29], mae gan gyflogwr gyfrifoldeb i sicrhau nad yw pobl ifanc a gyflogir ganddo yn agored i risg oherwydd diffyg profiad, bod yn anymwybodol o risgiau presennol neu risgiau posibl a/neu ddiffyg aeddfedrwydd.

Bydd y Comisiwn yn:

- Asesu risg yr holl weithgareddau gwaith a'r gweithgareddau gwaith posibl sy'n cynnwys pobl ifanc;

[27] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 Rheoliad 16 Asesiad risg mewn cysylltiad â mamau newydd neu famau beichiog: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/3/made

[28] Canolbwynt Polisi – Absenoldeb Mamolaeth: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub/SitePages/Maternity-leave.aspx

[29] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliad 19, Diogelu pobl ifanc: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/3/made

- Sicrhau bod y gwaith yn angenrheidiol ar gyfer eu hyfforddiant;
- Sicrhau bod y person ifanc yn cael ei oruchwylio’n briodol gan berson cymwys bob amser;
- Lleihau’r risg i’r lefel isaf cyn belled ag y mae’n rhesymol ymarferol;
- Gwahardd rhai gweithgareddau lle nodir risgiau uwch; a
- Pheidio â chaniatáu i'r person ifanc weithredu unrhyw beiriannau neu gyfarpar heb oruchwyliaeth a hyfforddiant priodol.

Bydd y Comisiwn yn ystyried a yw’r gwaith y bydd y person ifanc yn ei wneud:

- Y tu hwnt i'w allu corfforol neu seicolegol;
- Yn cynnwys dod i gysylltiad niweidiol â sylweddau sy'n wenwynig, yn gallu achosi canser, yn gallu niweidio neu wneud drwg i faban yn y groth, neu’n gallu effeithio'n gronig ar iechyd dynol mewn unrhyw ffordd arall;
- Yn cynnwys dod i gysylltiad niweidiol ag ymbelydredd;
- Yn cynnwys risgiau o ddamweiniau na all pobl ifanc, yn rhesymol, eu hadnabod na’u hosgoi oherwydd eu sylw annigonol i ddiogelwch, neu ddiffyg profiad neu hyfforddiant; neu
- Yn cynnwys risg i iechyd oherwydd oerfel, gwres, sŵn neu ddirgryndod eithafol.

## Rheoli salwch / haint trosglwyddadwy (gan gynnwys Covid-19 / ffliw / feirysau eraill neu glefydau heintus)

### Covid-19

Y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant sy’n gyfrifol, yn strategol ac yn weithredol, am reoli Covid-19 yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys adolygu achosion o gysylltiad â Covid-19 a amheuir neu a gadarnhawyd, darparu cyngor ac arweiniad ar fesurau rheoli risg penodol i Covid-19 ac ymateb i newidiadau deddfwriaethol.

Rhoddir ystyriaeth i staff y Comisiwn sydd â chyflyrau iechyd isorweddol, neu'r rhai sy'n byw gydag unigolion â chyflyrau iechyd isorweddol neu'n gofalu amdanynt, er mwyn rheoli cysylltiad â Covid-19. Bydd yr unigolion hyn yn gallu cael asesiadau risg unigol / atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol i nodi unrhyw fesurau rheoli risg penodol i’r unigolyn.

**Y ffliw**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i leihau'r risg o salwch o ganlyniad i'r ffliw i gyflogeion, a bydd naill ai'n gweithredu cynllun ad-dalu ar gyfer brechiadau ffliw neu'n cynnal clinigau ffliw ar y safle bob blwyddyn. Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer cyflogeion na allant ddod i glinigau ffliw ar y safle.

## Codi a chario

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion o dan Reoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992[30] sy'n cynnwys cymryd camau priodol i leihau'r risg o anaf i staff y Comisiwn yn ystod gweithgareddau codi a chario.

Rhoddir gwybodaeth am godi a chario i bob cyflogai newydd yn ystod ei sesiwn cynefino yn y Comisiwn. Lle mae'n rhesymol ymarferol, bydd y Comisiwn yn osgoi'r angen i staff wneud gwaith codi a chario. Os oes angen i staff wneud gwaith codi a chario, darperir hyfforddiant codi a chario iddynt drwy'r tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol.

## Gweithio ar uchder

Y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau a'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant ill dau sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithio ar uchder ar draws ystâd y Senedd yn cael ei reoli'n briodol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gweithio ar Uchder 2005[31].

[30] Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1992/2793/contents/made

[31] Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2005/735/contents/made

# Llywodraethu a Sicrwydd

## Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu yn cyfarfod bob tymor gyda'r cylch gwaith a ganlyn:

- Parhau i adolygu'r camau a gymerwyd i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n gweithio, yn ymweld neu'n ymgysylltu â'r Comisiwn, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol.
- Hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid o ran nodi, datblygu a gweithredu mesurau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant.
- Cynnwys ac ymgynghori â staff y Comisiwn a chynrychiolwyr ar faterion iechyd, diogelwch, llesiant a diogelu.

## Archwilio

Bydd y Comisiwn yn archwilio ei system rheoli iechyd a diogelwch o bryd i'w gilydd. Bydd Ochr yr Undebau Llafur yn cael gwybod pan gynllunnir archwiliadau diogelwch, a chânt eu gwahodd i gymryd rhan. Bydd canlyniadau'r rhaglen archwiliadau diogelwch yn cael eu monitro, a bydd materion o bwys sy'n codi o archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried drwy'r broses adolygu.

Bydd y broses adolygu yn sicrhau bod archwiliadau wedi'u llunio'n gywir a'u bod yn ymdrin â'r holl agweddau priodol. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u blaenoriaethu i fod yn sail i raglen weithredu.

# Ymgynghori ag Undebau Llafur, Cynrychiolwyr Diogelwch a Chyflogeion

- Yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. Yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a chyfraith cyflogaeth, mae’r Undebau Llafur cydnabyddedig o fewn y Comisiwn wedi penodi cynrychiolwyr diogelwch i gynrychioli buddiannau cyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch.
- Ymgynghorir yn ffurfiol â chyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu. Mae'r Comisiwn yn ceisio cynnwys rheolwyr a chyflogeion ym mhob agwedd ar reoli iechyd a diogelwch ac mae'n gwahodd awgrymiadau a sylwadau.

# Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch

- Mae anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch cyflogeion a chontractwyr i gael eu nodi ac mae hyfforddiant addas a digonol i gael ei gynnal, mewn ymateb i ganfyddiadau asesiadau risg ac archwiliadau. Mae’r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant, ynghyd â'r tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol yn archwilio'r cofnodion hyfforddi i sicrhau y cedwir at y gweithdrefnau.
- Rhaid ystyried gwybodaeth, galluoedd a gofynion iechyd a diogelwch cyn penodi neu neilltuo personél i swydd neu leoliad newydd neu wahanol. Dylid darparu hyfforddiant addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn, a’i ddiweddaru o bryd i'w gilydd mewn ymateb i newid.
- Rhaid i drefniadau hyfforddi a chynnwys cyrsiau fod yn briodol i anghenion y Comisiwn, rhaid iddynt fod yn gost-effeithiol a chael eu cyflwyno mewn modd proffesiynol.
- Cedwir cofnod o'r holl hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol a gafwyd gan weithwyr. Bydd rheolwyr llinell yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu i sicrhau bod y cofnod yn cael ei gadw'n gyfredol.
- Gellir gweld yr holl bolisïau drwy'r Canolbwynt Polisi[32] a gall pob aelod o staff gael mynediad ato drwy'r Fewnrwyd.
- Rhagor o wybodaeth
- I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â llesiant@Senedd.Cymru.

[32] Y Canolbwynt Polisi mewnol: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/cmn-policy-hub-dev

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â llesiant@Senedd.Cymru.